Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.12 Timau Ewropeaidd Arbenigol

Cefnogi gweithrediad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013

Beth yw rôl y Timau Ewropeaidd Arbenigol (SETs)?

Mae'r Timau Ewropeaidd Arbenigol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth am ddim i fudiadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sydd ynghlwm wrth weithrediad y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd ar gael yng Nghymru yn ystod 2007 - 2013.

Eu pwrpas yw helpu sicrhau cynnwys partneriaethau sy'n bodoli'n barod ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, annog cydweithrediad cynllunio a datblygu prosiect a chefnogi'n gyffredinol datblygiad a gweithrediad prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Gellir cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth oddi wrth:

- Gweithwyr allgymorth SET o fewn Timau Ewropeaidd yr Awdurdod Lleol.
- Llywodraeth Cymru; a
- Tîm Ewropeaidd trydydd sector WCVA (3-SET).

Pa wasanaethau a ddarperir gan 3-SET?

Mae 3-SET yn cefnogi mudiadau trydydd sector ledled Cymru sy'n ceisio elwa o gyllid Ewropeaidd gyda gwybodaeth, cyngor, adnoddau a hyfforddiant. Mae tîm 3-SET yn cydweithio gyda, ac yn ategu at, y gefnogaeth a ddarperir gan y Gweithwyr Allgymorth lleol SET a Llywodraeth Cymru drwy ddarparu arbenigedd pwrpasol ar lefel genedlaethol i alluogi mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu at gyflwyno'r rhaglenni.

Pwy all 3-SET helpu?

- Unrhyw fudiad trydydd sector sydd am ddysgu mwy am gyllid Ewropeaidd
- Mudiadau trydydd sector sy'n datblygu ac yn rheoli prosiectau Ewropeaidd cenedlaethol a rhanbarthol
- Noddwyr prosiectau'r sector cyhoeddus sy'n dymuno ymgysylltu mudiadau trydydd sector mewn trefniadau partneriaeth a darparu prosiectau.

Pa wybodaeth, cyngor a chanllawiau sydd ar gael?

Gellir gweld gwybodaeth ar gyllid Ewropeaidd, yn cynnwys canllawiau ar bynciau penodol, ar y Porth Cyllid www.cyllidcynaliadwycymru.org.uk, yn ogystal â gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

Mae WCVA hefyd yn cyhoeddi bwletin Newyddion Nawdd misol ac mae 3-SET yn hysbysebu cyfleoedd i dendro ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE drwy wasanaeth e-fwletin. Os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr ddosbarthu, e-bostiwch 3SET@wcva.org.uk.

Mae 3-SET yn rhoi cyngor ar:

- Ddatblygu, rheoli a gweithredu prosiectau Ewropeaidd
- Tendro a chaffael
- Rheoli risg ar draws eich mudiad
- LEAN a sicrhau ansawdd
- Dull cyllid cynaliadwy

Pa gyrsiau hyfforddi sydd ar gael?

- Sut i dendro
- Elfennau sylfaenol rheoli prosiect ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE
- Rheoli risg ar draws eich mudiad
- LEAN a sicrhau ansawdd
- Cael cyhoeddusrwydd ar gyfer eich prosiect a ariennir gan yr UE
- Mesur canlyniadau meddal

Mae cyrsiau hyfforddi 3-SET **am ddim** i staff a gwirfoddolwyr mudiadau trydydd sector all ddangos eu bod yn ymwneud â datblygiad a/neu gyflwyno prosiectau a ariennir gan Ewrop yng Nghymru.

Enwau Cyswllt

Gweithwyr Allgymorth Lleol SET
Am ymholiadau am brosiectau lleol a gofodol, cysylltwch â'r Gweithwyr Allgymorth SET yn yr ardal Awdurdod Lleol perthnasol. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt ar dudalennau '*Tîm Ewropeaidd Gofodol'* ar wefan WEFO.

Tîm 3-SET WCVA
Am ymholiadau parthed gwasanaethau 3-SET, cysylltwch â'r tîm ar 029 2043 1744 neu anfonwch e-bost at: 3SET@wcva.org.uk.

Cefnogir y prosiect hwn, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:10/02/2012

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk